

7 Statement of action and associated costs

7.1 Introduction

7.1.1

The RoWIP details both existing and future issues confronting CCBC, lists the strengths and weaknesses within the area of work and offers solutions to resolve these matters over the ten year life of the plan.

7.1.2

Having regard to the points raised in the Evaluation Summary (Section 4.15) the condition surveys indicate that there is a need to continue the work already undertaken in providing an improved network for users. There is a need to address numerous additional problems that were identified that are currently beyond the resources available to the Authority. Actions relating to the above are as follows.

Rights of Way Cabinet Committee supports the application, then a Modification Order is made and advertised in a local newspaper. The cost is approximately £1250. Provided no objection is received to the order then it can be confirmed as unopposed and a second notice appears in the local newspaper at a further cost of approximately £1000. Therefore the cost for advertising a Definitive Map Modification Order is in the region of £2,250. Total cost for processing the outstanding DMMO's is approximately £170k.

Action:

- It is therefore CCBC's intention to identify all legal events affecting public rights of way since relevant date of map and statement by 2009.
- Following this exercise, CCBC will prepare Omnibus Orders of the identified legal events by 2010.
- Will consider identifying anomalies between map and statement and prepare Modification Orders to formalise map and statement by 2011.
- Finally, update map and statement having regard to the processed Modification Orders by 2014.

7.2 Legally defining definitive map and statement

There are currently 75 outstanding Definitive Map Modification Order (DMMO) applications requiring investigation. CCBC employ a Rights of Way Support Officer whose primary task is to investigate the DMMOs in preparing reports for consideration by the Rights of Way Cabinet Committee. If, after due consideration the

7 Datganiad gweithredu a chostau cysylltiedig

7.1 Cyflwyniad

7.1.1

Mae'r CGHT yn nodi'r problemau sy'n wynebu CBSC heddiw ac yn y dyfodol, yn rhestru'r cryfderau a'r gwendidau yn y maes gwaith ac yn cynnig atebion i ddatrys y problemau hyn dros oes y cynllun, sef deng mlynedd.

7.1.2

Parthed y pwyntiau a godir yn y Crynodeb o'r Gwerthusiad (Adran 4.15) mae'r arolygon cyflwr yn dangos bod angen parhau â'r gwaith a wnaethpwyd eisoes wrth sicrhau rhwydwaith gwell i'r defnyddwyr. Mae angen mynd i'r afael â nifer fawr o broblemau ychwanegol a nodwyd, sydd ar hyn o bryd y tu hwnt i'r adnoddau sydd ar gael i'r Awdurdod. Mae'r camau gweithredu sy'n gysylltiedig â'r uchod fel a ganlyn.

7.2

Y map a'r datganiad diffiniol sy'n diffinio'n gyfreithiol

Ar hyn o bryd mae 75 o geisiadau am Orchmynion Addasu'r Map Diffiniol (DMMO) yn aros am ymchwiliad iddynt. Mae CBSC yn cyflogi Swyddog Cymorth Hawliau Tramwy, a'i brif waith yw ymchwilio i'r Gorchmynion hyn wrth baratoi adroddiadau i Bwyllgor Hawliau Tramwy'r Cabinet eu hystyried.

Os yw Pwyllgor Hawliau Tramwy'r Cabinet yn cefnogi'r cais, ar ôl ystyried yn briodol, yna caiff Gorchymyn Addasu ei wneud a'i hysbysebu mewn papur newydd lleol. Oddeutu £1,250 yw'r gost. Os na cheir unrhyw wrthwynebiad i'r gorchymyn gellir ei gadarnhau fel un diwrthwynebiad ac mae ail hysbysiad yn ymddangos yn y papur newydd lleol, ar gost ychwanegol o oddeutu £1,000. Felly rhyw £2,250 yw cost hysbysebu Gorchymyn Addasu'r Map Diffiniol. Oddeutu £170,000 yw cyfanswm costau prosesu'r Gorchmynion sy'n aros i gael sylw.

Gweithredu:

- Felly bwriad CBSC yw canfod pob digwyddiad cyfreithiol sy'n effeithio ar hawliau tramwy cyhoeddus ers dyddiad perthnasol y map a'r datganiad erbyn 2009.
- Ar ôl gwneud hyn, bydd CBSC yn paratoi Gorchmynion Cynhwysfawr o'r digwyddiadau cyfreithiol a ganfuwyd erbyn 2010.
- Bydd yn ystyried canfod anghysonderau rhwng y map a'r datganiad ac yn paratoi Gorchmynion Addasu i ffurfioli'r map a'r datganiad erbyn 2011.
- Yn olaf, bydd yn diweddu'r map a'r datganiad gan roi sylw i'r Gorchmynion Addasu a broseswyd erbyn 2014.

7.3 Maintaining the existing network

The current annual budget for the maintenance of the network is £75k, which is used to maintain and undertake minor improvements to the existing 846.80km (526.19 miles) of registered rights of way within the administrative area of Caerphilly. A proportion of this yearly allocation, £20k is used on special projects identified by the Rights of Way Cabinet Committee. There is no yearly percentage increase on the budget, but this figure will be influenced by the amount received from WAG. This is an ongoing exercise.

The Performance Indicators between 2004 and 2006 revealed that on average 85.2% of the network as a whole was 'easy to use'. Conversely 14.8% of the network is 'not easy to use'. Over the same period 7.8% of the network required major works. Assuming that the unavailable part of the network is inaccessible due to heavy overgrowth, then it is estimated that it will cost approximately £250k to open the network for public use.

Action:

- Commencing immediately CCBC will continue to identify special projects through the Rights of Way Cabinet Committee and bid for funds for additional schemes as they are identified.

- Clearance of the 15% (127 kms) of the network identified as being overgrown or obstructed by 2013.

7.4 Disability Discrimination Act 1995 (DDA)

The authority has a responsibility to treat people with disabilities on an equal basis.

Action:

- CCBC will provide reasonable access by introducing a phased programme of work, where a proportion of the existing maintenance budget is allocated where specific DDA problems exist. For example this work will include, replacing stiles with kissing gates and improving access for wheelchair use.
- CCBC recognise that a number of changes, adaptations or alterations would have to take place to cater for everyone's needs and that there is no single solution to enable access for all.
- Anticipated cost £5,000 per year.

7.3 Cynnal a chadw'r rhwydwaith sy'n bodoli eisoes

Y gyllideb flynyddol bresennol am gynnal a chadw'r rhwydwaith yw £75,000. Defnyddir yr arian hwn i gynnal a chadw a gwneud mân welliannau i'r 846.80cilomedr (526.19 o filltiroedd) o hawliau tramwy cofrestredig yn ardal weinyddol Caerffili. Defnyddir rhan o'r dyraniad blynnyddol hwn, sef £20,000, ar brosiectau arbennig a nodir gan Bwyllgor Hawliau Tramwy'r Cabinet. Nid oes dim cynnydd canrannol blynnyddol i'r gyllideb, ond bydd y swm a geir gan LCC yn dylanwadu ar y ffigur hwn. Mae hwn yn waith sy'n parhau.

Datgelodd y Dangosyddion Perfformiad rhwng 2004 a 2006 fod 85.2% ar gyfartaledd o'r rhwydwaith cyfan yn 'hawdd ei ddefnyddio'. I'r gwrthwyneb mae 14.8% o'r rhwydwaith 'heb fod yn hawdd ei ddefnyddio'. Dros yr un cyfnod roedd angen gwaith mawr ar 7.8% o'r rhwydwaith. A bwrw bod y rhan o'r rhwydwaith nad yw ar gael yn anhygrych oherwydd gordyfiant mawr, amcangyfrifir y bydd yn costio oddeutu £250,000 i agor y rhwydwaith i'r cyhoedd ei ddefnyddio.

Gweithredu:

- Gan ddechrau ar unwaith, bydd CBSC yn parhau i nodi prosiectau arbennig trwy Bwyllgor Hawliau Tramwy'r Cabinet a cheisio am arian ar gyfer cynlluniau ychwanegol wrth iddynt gael eu nodi.

- Clirio'r 15% (127 cilomedr) o'r rhwydwaith y nodwyd bod arno orfyiant neu rwystrau erbyn 2013.

7.4 Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 (DGA)

Mae cyfrifoldeb ar yr awdurdod i drin pobl ag anableddau'n gydradd.

Gweithredu:

- Bydd CBSC yn darparu mynediad rhesymol trwy gyflwyno rhaglen o waith fesul cam, lle mae cyfran o'r gyllideb cynnal a chadw bresennol yn cael ei dyrannu i fannau lle mae yna broblemau penodol o ran y DGA. Er enghraifft, bydd y gwaith hwn yn cynnwys gosod gatiau mochyn yn lle camfeydd a gwella mynediad i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn.
- Mae CBSC yn cydnabod y byddai'n rhaid gwneud nifer o newidiadau neu addasiadau er mwyn diwallu anghenion pawb ac nad oes dim un ateb i sicrhau mynediad i bawb.
- Y gost a ragwelir: £5,000 y flwyddyn.

7.5

Sign posting and waymarking

Signing – Under the terms of the Countryside Act 1968, a Highway Authority has a duty to sign all footpaths, bridleways and byways where they leave a metalled road. As previously indicated, WAG have reclassified all RUPPs to restricted byways and in this regard the Authority will now look to signpost all these routes where they terminate on a metalled highway.

Waymarking – This is an addition to signing to assist the public along a route, which may be particularly difficult to follow on a map. The Countryside Act 1968 allows the Authority to place signs at points along a path or way where the Authority considers it necessary to have a signpost or waymark to assist persons unfamiliar with the locality. This power may be exercised only after consultation with the owner or occupier of the land concerned. The requirement is to consult not to obtain consent, as a land owner cannot refuse to allow waymarking. However, most waymarking is carried out by either painting on, or fixing signs to, objects such as gateposts, stiles, trees or walls. Since these will be the property of the landowner, permission is needed to waymark on them. If permission is not granted the Authority may avail itself of its power to erect signs in the surface of the path.

In Caerphilly there are 1668 footpaths, 127 bridleways, 343 restricted byways and 12 Byways open to all traffic terminating on metalled roads, making a total of 2150 public paths terminating on metalled highways.

The current cost for the provision and installation of each sign is £50. The total cost for signing the network would therefore be £110k.

Action:

- Identify locations by end of 2008, and cost projects to a limit of £2500 per year.
- There are 343 restricted byways terminating on metalled highways. These will now form the base of a scheme to complete their signing. In regard to previous information it will cost an additional £20k and completion expected by the end of 2010.
- In this regard the Authority will consider schemes to waymark the network on an area by area basis.

7.5

Arwyddion a mynegbyst

Arwyddion - O dan delerau Deddf Cefn Gwlad 1968, mae'n ddyletswydd ar Awdurdod Prifyrdd i osod arwyddion ar gyfer pob llwybr troed, llwybr ceffylau a chilffordd lle maent yn gadael ffordd sydd wedi'i metlio. Fel y nodwyd eisoes, mae LICC wedi ailddosbarthu pob FfDdLIC yn gilffyrdd cyfyngedig. Mewn perthynas â hyn bydd yr Awdurdod bellach yn cynllunio i osod arwyddion ar gyfer yr holl lwybrau hyn lle maent yn terfynu ar ffordd sydd wedi'i metlio.

Mynegbyst - Ychwanegiad i arwyddion yw hyn i gynorthwyo'r cyhoedd ar hyd llwybr a all fod yn arbennig o anodd ei ddilyn ar fap. Mae Deddf Cefn Gwlad 1968 yn caniatáu i'r Awdurdod osod arwyddion mewn mannau ar hyd llwybr neu ffordd lle mae'r Awdurdod yn barnu bod angen cael arwydd neu fynegbost i gynorthwyo pobl sy'n anghyfarwydd â'r ardal. Ni ellir arfer y pŵer hwn ond ar ôl ymgynghori â pherchen nog neu feddiannwr y tir dan sylw. Y gofyniad yw ymgynghori nid cael caniatâd, gan na all tirfeddiannwr wrthod caniatáu mynegbyst. Fodd bynnag, bydd y rhan fwyaf o'r gwaith hwn yn golygu paentio ar bethau megis dyst gatiau, camfeydd, coed neu waliau, neu osod arwyddion arnynt. Gan mai eiddo'r tirfeddiannwr fydd y rhain, mae angen caniatâd i osod mynegbyst arnynt. Os na cheir caniatâd, mae'n bosibl

y bydd yr Awdurdod yn defnyddio'i bŵer i osod arwyddion ar wyneb y llwybr.

Yng Nghaerffili mae yna 1668 o lwybrau troed, 127 o lwybrau ceffylau, 343 o gilffyrdd cyfyngedig a 12 cilffordd sy'n agored i bob traffig sy'n terfynu ar ffyrdd wedi'u metlio, sef cyfanswm o 2150 o lwybrau cyhoeddus sy'n terfynu ar briffyrrdd wedi'u metlio.

Cost bresennol darparu a gosod pob arwydd yw £50. Felly cyfanswm cost gosod arwyddion ar y rhwydwaith i gyd fyddai £110,000.

Gweithredu:

- Nodi'r lleoliadau erbyn diwedd 2008, a chostio prosiectau hyd at derfyn o £2500 y flwyddyn.
- Mae yna 343 o gilffyrdd cyfyngedig sy'n terfynu ar briffyrrdd wedi'u metlio . Y rhain yn awr fydd sylfaen cynllun i gwblhau gosod arwyddion arnynt. Mewn perthynas â'r wybodaeth flaenorol bydd hyn yn costio £20,000 ychwanegol a disgwylir ei gwblhau erbyn diwedd 2010.
- Mewn perthynas â hyn bydd yr Awdurdod yn ystyried cynlluniau i osod mynegbyst ar y rhwydwaith fesul ardal.

7.6

Additional off road equestrian routes

Consideration of additional routes (where no registered path presently exists) is difficult to cost as there are a number of variables to take into account. If a Creation Order (Section 26 of the Highways Act 1980) is processed then the advertising cost will be in the region of £2,500. In addition a landowner may seek compensation for the loss of land and this figure will be dependant on:

- Whether or not the land is considered agricultural.
- The length of the path.
- Ground conditions and whether substantive works are required to bring the route up to a standard suitable for public use.

Action:

- Estimated cost of each new path £7,500 and anticipate to complete two links per year. Programme to continue until completed.
- It appears that the only way of approaching this type of scheme will be to cost each route as they arise and then budget for the following year.

7.7

Long distance bridleway routes and circular routes

In the main the long distance path and circular routes will be by way of existing registered paths. The Authority will seek funding for this scheme and only a small proportion will be from the yearly maintenance budget. Each section of the long distance path and circular routes will be costed separately for the following years action. Estimated cost of new path is £7,500 per link.

Action:

- Identify the long distant route by end of 2008.
- Identify missing links and improvements to existing network mid 2009.
- Commence negotiations for missing links end 2009.
- Commence improvements of existing network mid 2009 for completion by 2011.
- Complete missing links as soon after as possible dependent upon negotiations.

7.6

Llwybrau oddi-ar-y-ffordd ychwanegol i farchogwyr

Mae'n anodd costio ystyried llwybrau ychwanegol (lle nad oes llwybr cofrestredig yn bodoli ar hyn o bryd) oherwydd bod nifer o newidynnau i'w hystyried. Os caiff Gorchymyn Creu (Adran 26 Deddf Priffor 1980) ei brosesu, yna rhyw £2,500 fydd cost yr hysbysebu. At hynny, gall tirfeddiannwr geisio iawndal am golli tir a bydd y ffigur hwn yn dibynnu ar:

- A ystyrir y tir yn dir amaethyddol ai peidio.
- Hyd y llwybr.
- Cyflwr y tir ac a oes angen gwaith sylweddol i godi'r llwybr i safon sy'n addas i'r cyhoedd ei ddefnyddio.

Gweithredu:

- Amcangyfrifir mai cost pob llwybr newydd fydd £7,500 a rhagwelir cwblhau dau gyswllt bob blwyddyn. Y rhaglen i barhau hyd y caiff ei chwblhau.
- Ymddengys mai'r unig ffordd o ymdrin â'r math hwn o gynllun fydd costio pob llwybr wrth iddo godi ac yna cyllidebu am y flwyddyn ganlynol.

7.7

Llwybrau ceffylau hirbell a llwybrau cylchol

At ei gilydd bydd y llwybr hirbell a'r llwybrau cylchol yn mynd ar hyd llwybrau cofrestredig sy'n bodoli eisoes. Bydd yr Awdurdod yn chwilio am arian ar gyfer y cynllun hwn a dim ond cyfran fach fydd yn dod o'r gyllideb cynnal a chadw flynyddol. Bydd pob rhan o'r llwybr hirbell a'r llwybrau cylchol yn cael eu costio ar wahân ar gyfer gweithredu yn y flwyddyn ganlynol. Amcangyfrifir mai cost llwybr newydd yw £7,500 am bob cyswllt.

Gweithredu:

- Nodi'r llwybr hirbell erbyn diwedd 2008.
- Nodi'r cysylltau sydd ar goll a'r gwelliannau i'r rhwydwaith sy'n bodoli eisoes ganol 2009.
- Dechrau trafodaethau ar gyfer cysylltau sydd ar goll diwedd 2009.
- Dechrau gwelliannau i'r rhwydwaith ganol 2009 i'w cwblhau erbyn 2011.
- Cwblhau'r cysylltau sydd ar goll cyn gynted ag sy'n bosibl wedyn gan ddibynnu ar draffodaethau.

7.8 Open access

The Open Access Management Plan identifies essential works that would provide access to open land and desirable works, which would be beneficial in improving and enhancing access for the public. The costs would be £15k and £50k respectively.

Action:

- CCBCs Countryside Section is currently implementing a program of works to complete works identified as 'essential' in Section 4.21.5. Once all essential work has been completed, works identified as 'desirable' in the plan will take priority.

7.9 Raise Profile – Publicising/ Promotion

Publication of routes – Probably one of the best methods of advertising the rights of way network is through the Internet. Before this can be considered however, a considerable amount of work is necessary to ensure that the information is correct. This will require the updating of the definitive map and statement, and the checking of the alignment of each path. This work should be considered as additional to that currently being carried out and accordingly additional staff will be needed to ensure progress by continuing to investigate claims and the processing of the required Modification Orders.

The public need confidence to use the network. The Authority has many tools available to achieve this:

- Leafleting walks, where accurate details are given through descriptions of the route and terrain together with a plan-cost of £1000 per 650 leaflets, including design and printing.
- Website based walks, where the public may download specific routes. This would allow anyone with a computer with internet access to view the definitive maps from anywhere in the country/world and be of particular interest for individuals and families visiting the area.
- An easy method of reporting any difficulties encountered while using the network is through the Council's web based complaint/feedback form. This allows for an easy, quick and recorded report to be investigated by the Authority.

Action:

- Estimated cost of promotion £1000 per annum. Commence raising profile mid 2008 process will be ongoing.

7.8

Mynediad Agored:

Mae'r Cynllun Rheoli Mynediad Agored yn nodi'r gwaith angenrheidiol a fyddai'n darparu mynediad i dir agored, a'r gwaith dymunol a fyddai o fudd wrth wella mynediad a sicrhau mwy o fynediad i'r cyhoedd. Cost y cyntaf fyddai £15,000 a chost yr ail fyddai £50,000.

Gweithredu:

- Ar hyn o bryd mae Is-adran Cefn Gwlad CBSC yn gweithredu rhaglen waith i gwblhau'r gwaith a nodir yn 'hanfodol' yn Adran 4.21.5. Ar ôl i'r holl waith hanfodol gael ei gwblhau, y gwaith a nodir yn 'ddymunol' yn y cynllun fydd yn cael blaenoriaeth.

7.9

Codi Proffil – Rhoi cyhoeddusrwydd/hyrwyddo

Cyhoeddi llwybrau – Mae'n debyg mai un o'r dulliau gorau o hysbysebu'r rhwydwaith hawliau tramwy yw trwy'r Rhyngrwyd. Cyn y gellir ystyried hyn, fod bynnag, mae angen cryn dipyn o waith i sicrhau bod y wybodaeth yn gywir. Bydd hyn yn golygu diweddarur'r map a'r datganiad diffiniol a gwirio aliniad pob llwybr. Dylid ystyried y gwaith hwn yn ychwanegol at y gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd ac felly bydd angen staff ychwanegol i sicrhau cynnydd trwy barhau i ymchwilio i geisiadau a phrosesu'r Gorchnyddion Addasu angenrheidiol.

Mae ar y cyhoedd angen hyder i ddefnyddio'r rhwydwaith. Mae gan yr Awdurdod lawer o ffyrdd i sicrhau hyn:

- Darparu taflenni ar gyfer teithiau cerdded, lle rhoddir manylion cywir trwy ddisgrifiadau o'r llwybr a'r dirwedd ynghyd â chynllun - y gost yw £1,000 am 650 o daflenni, gan gynnwys dylunio ac argraffu.
- Teithiau cerdded ar y we, lle gall y cyhoedd lawrlwytho llwybrau penodol. Byddai hyn yn caniatáu i unrhyw un â chyfrifiadur â chyswilt â'r rhyngrwyd weld y mapiau diffiniol o unrhyw le yn y wlad/byd a byddai o ddiddordeb arbennig i unigolion a theuloedd sy'n ymweld â'r ardal.
- Ffordd hawdd o roi gwylod am unrhyw anawsterau a geir wrth ddefnyddio'r rhwydwaith yw trwy ffurflen gwyn/adborth y Cyngor ar y we. Mae hyn yn creu adroddiad hawdd a chyflym ar glawr i'r Awdurdod ymchwilio iddo.

Gweithredu:

- Amcangyfrifir mai cost hyrwyddo yw £1,000 y flwyddyn. Dechrau codi proffil ganol 2008, bydd y broses yn parhau.



Misuse of the right of way network (Photo with kind permission of the Gwent Police Roads Policing Unit). Camddefnyddio'r rhwydwaith hawliau tramwy (Llun â chaniatâd caredig Uned Plismona Ffyrd Heddlu Gwent).

7.10

Misuse of the rights of way network

Misuse appears high on all users priority list. Consideration will, wherever necessary, be given to restricting use of routes to bona fide use, whilst having due regard to all existing legislation.

The Authority currently has a number of methods of preventing the misuse of the network. This area will be difficult to cost, as the full problem cannot be accurately evaluated. Accordingly, it will best be dealt with on a rolling programme where the Authority will identify an amount each year to combat misuse. Initial anticipations are in the region of £3,500 per annum.

Actions:

- Complete the survey of the outstanding length of the network not previously surveyed. This will probably be best achieved with the help of volunteers at an estimated cost £5000. Completion by end of 2009.
- Resolution of conflicts between various types of users through the provision of structures and signs. Estimated cost £5000 per annum.

7.10

Camddefnyddio'r Rhwydwaith Hawliau Tramwy

Mae camddefnyddio hawliau tramwy yn uchel ar restr blaenoriaethau'r holl ddefnyddwyr. Lle bynnag y bo angen, ystyrir cyfyngu'r defnydd o lwybrau i ddefnydd dilys, gan roi sylw dyledus ar yr un pryd i'r holl ddeddfwriaeth sy'n bodoli.

Ar hyn o bryd mae gan yr Awdurdod nifer o ddulliau o atal camddefnyddio'r rhwydwaith. Bydd yn anodd costio'r mae hwn, gan na ellir mesur y broblem lawn yn fanwl gywir. Felly'r ffordd orau o ddelio â hi yw trwy raglen dreigl lle bydd yr Awdurdod yn dynodi swm bob blwyddyn i frwydro yn erbyn camddefnyddio'r rhwydwaith. Rhagwelir swm o ryw £3,500 y flwyddyn i ddechrau.

Gweithredu:

- Cwblhau'r arolwg o'r rhan o'r rhwydwaith nas arolygwyd o'r blaen. Mae'n debyg mai'r ffordd orau o wneud hyn yw gyda chymorth gwirfoddolwyr ar gost amcangyfrifedig o £5,000. I'w gwblhau erbyn diwedd 2009.
- Datrys gwrthdar o rhwng gwahanol fathau o ddefnyddwyr trwy ddarparu strwythurau ac arwyddion. Y gost amcangyfrifedig yw £5,000 y flwyddyn.

7.11

Gwella'r llwybrau trefol sy'n bodoli eisoes

O'r rhwydwaith sy'n bodoli eisoes, mae rhyw 19% mewn mannau trefol, sef 160 cilomedr o lwybrau.

Gweithredu:

- Byddai'r Awdurdod yn dymuno gwella'r llwybrau hyn er budd y trigolion a lleihau'r hawliadau yswiriant gan drydydd partïon. Cost amcangyfrifedig y gwaith hwn yw £810,000 dros oes y cynllun.

7.11

Improvement of existing urban paths

Approximately 19% of the existing network lies within the urban environment. This accounts for 160 Kms of path.

Action:

- The Authority would wish to improve these routes for the benefit of residents and reduce the 3rd party insurance claims. The estimated cost for this work is £810k for the life of the plan.

have a duty to keep the definitive map and statement under continuous review.

It is possible for a member of the public to claim a route as public by virtue of twenty years uninterrupted use or through historic evidence. All such claims when received are recorded by the Council and investigated in date order. The Countryside and Rights of Way Act 2000 has introduced a cut off date (2026) for claims made for rights of way on historical grounds, such routes being in existence before 1949. This will inevitably place greater pressure on existing staff to research these claims on this basis. Such routes will be unable to be claimed as carrying public rights beyond 2026, even if they continue to be in use. It is considered that this will inevitably lead to a greater number of claims being made to amend the Definitive Map and record new or higher public rights of way. It is difficult to anticipate the number of applications that can be expected for these historical routes, but it can be assumed that the number will increase nearer the cut off date. Any further increase in applications will put more pressure on existing staff.

Action:

- As the authority is unable to estimate the additional number of claims that may be received as we approach the cut off date, it is difficult to judge the additional pressure that these will place on existing staff resources. In this regard it is considered appropriate that the authority review the position periodically.

7.12

Lost Ways - New legislation is imposing a cut-off date for historical rights of way

A Lost Way can be described as a route, which is not, recorded on either the definitive map and statement or maintainable highway records but has public rights through historical use. A lost way can also be where it is believed bridleway rights may exist on a registered footpath. The question of unrecorded vehicular rights existing on registered paths has been made clearer through the Natural Environment and Rural Communities Act 2006, (NERC Act 2006), which instructs that no public vehicular rights can be claimed unless they were applied for before 19th May 2005.

Under Section 53 of the Wildlife and Countryside Act 1981, local authorities

7.12

Ffyrdd Coll - Mae deddfwriaeth newydd yn gosod dyddiad cau ar gyfer hawliau tramwy hanesyddol

Gellir disgrifio Ffordd Coll fel llwybr nad yw wedi'i gofnodi ar y map a'r datganiad diffiniol nac ar y cofnodion priffyrrd a gynhelir, ond sydd â hawliau tramwy cyhoeddus trwy ddefnydd hanesyddol. Gall fod ffordd goll hefyd lle y credir bod hawliau llwybr ceffylau'n bodoli ar lwybr troed cofrestredig. Gwnaed cwestiwn hawliau cerbydol heb eu cofnodi sy'n bodoli ar lwybrau cofrestredig yn gliriach gan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006, (Deddf NERC 2006). Mae hon yn dweud na ellir hawlio hawliau cerbydol cyhoeddus oni wnaed cais amdanyst cyn 19eg Mai 2005.

O dan Adran 53 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i adolygu'r map a'r datganiad diffiniol yn barhaus. Mae'n bosibl i aelod o'r cyhoedd hawlio bod llwybr yn gyhoeddus oherwydd iddo gael ei ddefnyddio'n ddi-dor ers ugain mlynedd neu drwy dystiolaeth hanesyddol. Mae'r Cyngor yn cofnodi'r holl hawliadau o'r fath wrth eu derbyn ac yn ymchwilio iddynt yn nhreft y dyddiadau. Mae Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 wedi cyflwyno dyddiad cau (2026) ar gyfer hawliadau a wneir am hawliau tramwy ar sail hanesyddol, llwybrau oedd yn bodoli cyn 1949. Mae'n anochel y bydd hyn yn rhoi mwy o bwysau

ar y staff presennol i ymchwilio i'r hawliadau hyn ar y sail hon. Ni fydd modd hawlio bod llwybrau o'r fath yn dwyn hawliau cyhoeddus ar ôl 2026, hyd yn oed os ydynt yn cael eu defnyddio o hyd. Bernir y bydd hyn yn arwain yn anochel at wneud nifer fwy o hawliadau i ddiwygio'r Map Diffiniol ac i gofnodi hawliau tramwy cyhoeddus newydd neu uwch. Mae'n anodd rhagweld faint o geisiadau y gellir eu disgwyl am y llwybrau hanesyddol hyn, ond gellir tybio y bydd y nifer yn cynyddu'n nes at y dyddiad cau. Bydd unrhyw gynnydd pellach yn nifer y ceisiadau'n rhoi mwy o bwysau ar y staff presennol.

Gweithredu:

- Gan nad yw'r awdurdod yn gallu amcangyfrif y nifer ychwanegol o hawliadau a gawn wrth nesáu at y dyddiad cau, mae'n anodd barnu faint o bwysau ychwanegol y byddant yn eu rhoi ar yr adnoddau staff presennol. Yn hyn o beth fe'i hystyrir yn briodol i'r awdurdod adolygu'r sefyllfa o dro i dro.

7.13 Cycling

Action:

- Progress will continue to be made with implementation of the Authority's Safe Routes to Schools initiative (current priority due to end 2008/09 - Newbridge Comprehensive), which promotes both walking and cycling and disabled access. The Council's next priority will be St. Cenydd Comprehensive School.
- As part of the Local Transport Plan cycling will be promoted as a sustainable and healthy mode of transport.
- As part of the Council's approved Unitary Development Plan (UDP) former railway lines will be safeguarded for transport related development, particularly those that facilitate walking and cycling.
- As the Council's Local Development Plan (LDP) is developed, consideration will be given to ensure provision for cyclists is safeguarded and a network of cycle routes developed as it is now under the current UDP.
- It is intended to make continued progress with the development of both the Local and Regional Cycling Networks.
- Routes 4 and 47 of the National Cycle Network (NCN) through CCBC have been completed. The next priority within the Authority is for the National Cycle Network, Heads of the Valleys Route (NCN 46).
- As part of the South East Wales Transport Alliance (Sewta) the Authority will support the Walking and Cycling Strategy for South East Wales, within the context of the developing Regional Transport Plan.
- Cycling initiatives will be promoted to improve sustainable community access, improve access for people with disabilities, improve health and fitness, aid regeneration and improve the environment and tourism opportunities.
- The Authority will actively seek to promote and publicise cycling throughout the Borough.

7.13 Beicio

Gweithredu:

- Byddwn yn parhau i wneud cynnydd gyda gweithredu menter yr Awdurdod ar gyfer llwybrau Diogel i'r Ysgol. Y flaenoriaeth bresennol, sydd i ddod i ben yn 2008/09, yw Ysgol Gyfun Trecelyn. Mae'r fenter yn hyrwyddo cerdded a beicio a mynediad i bobl anabl. Blaenoriaeth nesaf y Cyngor fydd Ysgol Gyfun Cennydd Sant.
- Fel rhan o'r Cynllun Cludiant Lleol caiff beicio ei hyrwyddo fel ffordd gynaliadwy ac iach o deithio.
- Fel rhan o Gynllun Datblygu Unedol (CDU) y Cyngor sydd wedi'i gymeradwyo, bydd hen linellau rheilffordd yn cael eu diogelu ar gyfer datblygiadau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth, yn enwedig rhai sy'n hwyluso cerdded a beicio.
- Wrth i Gynllun Datblygu Lleol (CDLI) y Cyngor gael ei ddatblygu, ystyri'r diogelu darpariaeth i feicwyr a datblygu rhwydwaith o lwybrau beicio, fel a wneir ar hyn o bryd o dan y CDU presennol.
- Bwriedir parhau i wneud cynnydd gyda datblygu'r Rhwydwaith Beicio Lleol a'r Rhwydwaith Beidio Rhanbarthol.
- Mae Llwybrau 4 a 47 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol (NCN) trwy Fwrdeistref Sirol Caerffili wedi cael eu cwblhau. Y flaenoriaeth nesaf yn yr Awdurdod yw Llwybr Blaenau'r Cymoedd (NCN 46) y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol.
- Fel rhan o Gynghrair Cludiant De-ddwyrain Cymru (SEWTA) bydd yr Awdurdod yn cefnogi'r Strategaeth Cerdded a Beicio ar gyfer De Ddwyrain Cymru, yng nghyddestun y Cynllun Cludiant Rhanbarthol sy'n cael ei ddatblygu.
- Caiff mentrau beicio eu hyrwyddo er mwyn gwella mynediad cymunedol cynaliadwy, gwella mynediad i bobl ag anableddau, gwella iechyd a ffitrwydd, cynorthwyo ag adfywio a gwella'r amgylchedd a chyfleoedd ym maes twristiaeth.
- Bydd yr Awdurdod yn mynd ati i geisio hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i feicio ledled y Fwrdeistref.

7.14

Improving existing routes

Clearly a lot of the enjoyment of using the network can be taken away through poorly maintained paths and the Authority will continue to strive to maintain the network in the future through its own efforts and with the assistance of user groups. As stated earlier in the report, the Rights of Way Cabinet Committee identifies two schemes per year that are considered to require additional works, above and beyond that which is considered daily maintenance. The Authority will bid for additional funding in order to complete additional works above those already identified. The user groups will be encouraged to continue with their support in maintaining the network and also bid for their own schemes. The Authority will provide support in this process.

Action:

- The Council will actively seek to identify and secure additional funding to increase the number of RoW improved via this process, whether it is external or a bid for additional funding from the Council's Capital budget.

7.15

Carriage driving

The processing by the WAG of an order under the Countryside and Rights of Way Act 2000 (Commencement No.8 and Transitional Provisions) (Wales) Order 2006, brought into force certain provisions of Part II of the CRoW Act 2000. This order made on the 11th May 2006 in relation to Wales, reclassified all routes recorded as Cart Road Footpaths and Cart Road Bridleways (Roads Used as Public Paths, RUPP's) on the Definitive Map and Statement to Restricted Byways. This new status confers public rights on foot, on horseback or leading a horse and a right for vehicles other than mechanically propelled vehicles. This status raises a particular problem as to the protection of the landowner/farmer and to simultaneously retain access in a horse drawn vehicle.

Action:

- The only method currently available appears to be construction of a corral system of gates that only permits one gate to open at a time. This construction will be costly for whoever bears the cost of installation be it the Authority or the landowner. Alternatives will also be actively sought and investigated.

7.14

Gwella'r llwybrau sy'n bodoli eisoes

Mae'n amlwg bod llwybrau nad ydynt yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda yn gallu amharu ar fwynhau'r rhwydwaith. Bydd yr Awdurdod yn parhau i geisio cynnal a chadw'r rhwydwaith yn y dyfodol trwy ei ymdrechion ei hun a chyda chymorth grwpiau defnyddwyr. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, mae Pwyllgor Hawliau Tramwy'r Cabinet yn nodi dau gynllun y flwyddyn lle bernir bod angen gwaith ychwanegol, ar wahân i'r hyn a ystyri yn waith cynnal a chadw beunyddiol. Bydd yr Awdurdod yn ceisio am arian ychwanegol er mwyn cwblhau gwaith ychwanegol at y gwaith a nodwyd eisoes. Bydd y grwpiau defnyddwyr yn cael eu hannog i barhau i gynorthwyo â chynnal a chadw'r rhwydwaith a hefyd i wneud ceisiadau ar gyfer eu cynlluniau eu hunain. Bydd yr Awdurdod yn rhoi cymorth gyda'r broses hon.

Gweithredu:

- Bydd y Cyngor yn mynd ati i geisio canfod a sicrhau arian ychwanegol i gynyddu nifer yr Hawliau Tramwy a gaiff eu gwella trwy'r broses hon, boed yn allanol neu'n gais am arian ychwanegol o gyllideb cyfalaf y Cyngor.

7.15

Gyrru Cerbydau Ceffyl

Wrth i LCC brosesu gorchymyn o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 8 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2006, daeth rhai o ddarpariaethau penodol Rhan II Deddf CGHT 2000 i rym. Ail-ddosbarthodd y gorchymyn hwn, a wnaethpwyd ar 11eg Mai 2006 mewn perthynas â Chymru, bob llwybr a gofnodwyd fel Llwybrau Troed Ffordd Gert a Llwybrau Ceffylau Ffordd Gert (Ffyrdd a Ddefnyddir fel Llwybrau Cyhoeddus, FfDdLICau) ar y Map a'r Datganiad Diffiniol, yn Gilffyrrd Cyfyngedig. Mae'r statws newydd hwn yn rhoi hawliau cyhoeddus ar droed, ar gefn ceffyl neu'n tywys ceffyl a hawl i gerbydau nad ydynt yn gerbydau a yrrir yn fecanyddol. Mae'r statws hwn yn codi problem benodol, sef diogelu'r tirfeddiannwr/ffermwyr ac ar yr un pryd cadw mynediad i gerbyd ceffyl.

Gweithredu:

- Ymddengys mai'r unig ddull sydd ar gael ar hyn o bryd yw adeiladu system corlan o gatiau sy'n golygu mai dim ond un gât y gellir ei agor ar y tro. Bydd yr adeiladwaith hwn yn gostus i bwy bynnag sy'n talu am ei osod, boed yr Awdurdod neu'r tirfeddiannwr. Byddwn hefyd yn mynd ati i chwilio am ddulliau eraill ac ymchwilio iddynt.

7.16 Cost evaluation in summary

7.16.1

Table 7 below, provides indicative costs of all potential works identified in the RoWIP. If the objectives of the RoWIP are to be met, funding to match the projected annual and 10 year spend profile for each of the identified work areas must be obtained.

7.16.2

The table also indicates under 'Author', who identified each area of improvement as each interested party has their own concerns when prioritising improvements to the RoW network. Priorities identified by the LAF, Local Authority (LA) and Users have been listed and considered at length earlier in the Plan.

(Table 7: Identified actions against cost)

ACTION REQUIRED	Cost £k per year	Cost £k over 10 year	Author
Raise Profile – Publicising/Promotion: 1. Commence raising profile mid 2008 - Process will be ongoing.	1	10	LA & LAF
Marry the Plan to the health improvement agenda 2. Liaise with LHB to progress joint initiatives.	TBC	TBC	LA & LAF
Link the management of rights of way and the countryside with the community Planning process 3. Work with Community Partnerships to develop bids/schemes.	TBC	TBC	LA & LAF
Disability Discrimination Act 1995 (DDA) 4. CCBC will provide reasonable access by introducing a phased programme of work, where a proportion of the existing maintenance budget is allocated where specific DDA problems exist. For example this work will include, replacing stiles with kissing gates and improving access for wheelchair use. 5. CCBC recognise that a number of changes, adaptations or alterations would have to take place to cater for everyone's needs and that there is not one solution to enable access for all. 6. Anticipated cost £5,000 per year.	5	50	LA & LAF
Maintaining the existing network 7. Commencing immediately, CCBC will continue to identify special projects through the Rights of Way Cabinet Committee and bid for funds for additional schemes as they are identified. 8. Clearance of the 15% (127kms) of the network identified as being overgrown or obstructed by 2013.	75	750	LA & LAF
Clearance of paths identified through PI's 9. Arrange clearance.	25	250	LA

7.16

Crynodeb o'r gwerthusiad o'r costau

7.16.1

Mae Tabl 7 isod yn rhoi costau dangosol yr holl waith posibl a nodir yn y CGHT. Er mwyn cyrraedd amcanion y CGHT, rhaid cael arian sy'n cyfateb i'r proffil gwariant blynnyddol a deng mlynedd rhagamcanedig ar gyfer pob un o'r meysydd gwaith a nodir.

7.16.2

Mae'r tabl hefyd yn dangos o dan y pennawd 'Awdur' pwy nododd bob maes i'w wella, gan fod gan bob buddgyfranogwr ei bryderon ei hun wrth flaenoriaethu gwelliannau i'r rhwydwaith Hawliau Tramwy. Mae'r blaenoriaethau a nodwyd gan y Fforwm Mynediad Lleol (FfMLI), yr Awdurdod Lleol (ALI) a'r Defnyddwyr wedi cael eu rhestru a'u trafod yn helaeth yn gynharach yn y Cynllun.

(Tabl 7: Gweithredoedd a nodir yn erbyn y gost)

Y CAM GWEITHREDU GOFYNNOL	Cost £k y flwyddyn	Cost £k dros 10 mlynedd	Awdur
Codi proffil – rhoi cyhoeddusrwydd/hyrwyddo: 1. Dechrau codi proffil ganol 2008. Bydd y broses yn parhau.	1	10	ALI a FfMLI
Cysylltu'r cynllun â'r Agenda Gwella Iechyd 2. Cysylltu â'r BILI er mwyn bwrw ymlaen â mentrau ar y cyd.	*	*	ALI a FfMLI
Cysylltu rheoli hawliau tramwy a chefn gwlad â'r broses cynllunio cymunedol 3. Cydweithio â'r Partneriaethau Cymunedol i ddatblygu ceisiadau/cynlluniau.	*	*	ALI a FfMLI
Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 (DGA) 4. Bydd CBSC yn darparu mynediad rhesymol trwy gyflwyno rhaglen o waith fesul cam, lle mae cyfran o'r gyllideb cynnal a chadw bresennol yn cael ei dyrannu i fannau lle mae yna broblemau penodol o ran y DGA. Er enghraifft, bydd y gwaith hwn yn cynnwys gosod gatiau mochyn yn lle camfeydd a gwella mynediad i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn. 5. Mae CSBC yn cydnabod y byddai'n rhaid gwneud nifer o newidiadau ac addasiadau er mwyn diwallu anghenion pawb ac nad oes dim un ateb i sicrhau mynediad i bawb. 6. Y gost a ragwelir: £5,000 y flwyddyn.	5	50	ALI a FfMLI
Cynnal a chadw'r rhwydwaith sy'n bodoli eisoes 7. Gan ddechrau ar unwaith, bydd CBSC yn parhau i nodi prosiectau arbennig trwy Bwyllgor Hawliau Tramwy'r Cabinet a cheisio am arian ar gyfer cynlluniau ychwanegol wrth iddynt gael eu nodi. 8. Clirio'r 15% (127 cilomedr) o'r rhwydwaith y nodwyd bod arno orfyiant neu rwystrau erbyn 2013.	75	750	ALI a FfMLI
Clirio llwybrau a nodir trwy Ddangosyddion Perfformiad 9. Trefnu eu clirio.	25	250	ALI

* I'w chadarnhau

(Table 7: Identified actions against cost)

ACTION REQUIRED	£k yr	£k 10yr	Author
Additional off road equestrian routes 10. Estimated to complete two links per year. 11. Programme to continue until completed. 12. It appears that the only way of approaching this type of scheme will be to cost each route as they arise and then budget for the following year.	7.5	75	LA & LAF
Long Distance Bridleway routes and Circular routes 13. Identify the long distant route by end of 2008. 14. Identify missing links and improvements to existing network by mid 2009. 15. Commence negotiations for missing links by end 2009. 16. Commence improvements of existing network by mid 2009 for completion by 2011. 17. Complete missing links as soon after as possible dependent upon negotiations.	7.5	75	LA & LAF
Open Access 18. Implement a programme of works to complete works identified as 'essential'. Once all essential work has been completed, works identified as 'desirable' in the plan will take priority.	5	50	LA & LAF
Develop circular walking routes and ensure their sustainability and use 19. Identify and promote available leisure routes.	5	50	LA & LAF
Legally defining definitive map and statement 20. Identify all legal events affecting public rights of way since relevant date of map and statement by 2009. 21. Prepare Omnibus Orders of the identified legal events by 2010. 22. Identify anomalies between map and statement and prepare Modification Orders to formalise map and statement by 2011. 23. Update map and statement having regard to the processed Modification Orders by 2014.	17	170	LA & LAF
Misuse 24. Complete the survey of the outstanding length of the network not previously surveyed. Completion by end of 2009. 25. Resolution of conflicts between various types of users through the provision of structures and signs.	5	50	User
Obstruction 26. Clear obstructions when reported.	5	50	User
Signposting and Waymarking 27. Identify locations by end of 2008. 28. There are 343 restricted byways terminating on metalled highways. These will now form the base of a scheme to complete their signing. 29. In this regard the authority will consider schemes to waymark the network on an area-by-area basis.	11 5	110 50	User & LA
Survey the paths not already surveyed 30. Undertake surveys.	5	50	LA
Continue processing claims 31. Investigate claims.	7.5	75	LA
Assessing the needs of different classes of user and resolving conflicts between users and landowners 32. Undertake surveys where necessary.	5	50	LA
Links to other access opportunities 33. Improve Links.	TBC	TBC	LA
Improvement of existing urban paths 34. Improvement of urban paths.	81	810	LA

(Tabl 7: Gweithredoedd a nodir yn erbyn y gost)

Y CAM GWEITHREDU GOFYNNOL	£k Bl	£k 10Bl	Awdur
Llwybrau oddi-ar-y-ffordd ychwanegol i farchogwyr 10. Rhagwelir cwblhau dau gyswilt bob blwyddyn. 11. Y rhaglen i barhau hyd y caiff ei chwblhau. 12. Ymddengys mai'r unig ffordd o ymdrin â'r math hwn o gynllun fydd costio pob llwybr wrth iddo godi ac yna cyllidebu am y flwyddyn ganlynol.	7.5	75	ALI a FfMLI
Llwybrau Ceffylau hirbell a chylchol 13. Nodi'r llwybr hirbell erbyn diwedd 2008. 14. Nodi'r cysylltau sydd ar goll a'r gwelliannau i'r rhwydwaith sy'n bodoli eisoes erbyn canol 2009. 15. Dechrau trafodaethau ar gyfer cysylltau sydd ar goll erbyn diwedd 2009. 16. Dechrau gwelliannau i'r rhwydwaith sy'n bodoli eisoes erbyn canol 2009 i'w cwblhau erbyn 2011. 17. Cwblhau'r cysylltau sydd ar goll cyn gynted ag sy'n bosibl wedyn gan ddibynnu ar drafodaethau.	7.5	75	ALI a FfMLI
Mynediad Agored 18. Gweithredu rhaglen o waith i gwblhau gwaith a nodir yn 'hanfodol'. Ar ôl i'r holl waith hanfodol gael ei gwblhau, y gwaith a nodir yn 'ddymunol' yn y cynllun fydd yn cael blaenoriaeth.	5	50	ALI a FfMLI
Datblygu llwybrau cerdded cylchol a sicrhau eu bod yn gynaliadwy ac y caint eu defnyddio 19. Nodi a hyrwyddo'r llwybrau hamdden sydd ar gael.	5	50	FfMLI
Y map a'r datganiad diffiniol sy'n diffinio'n gyfreithiol 20. Canfod pob digwyddiad cyfreithiol sy'n effeithio ar hawliau tramwy cyhoeddus ers dyddiad perthnasol y map a'r datganiad erbyn 2009. 21. Paratoi Gorchmynion Cynhwysfawr o'r digwyddiadau cyfreithiol a ganfuwyd erbyn 2010. 22. Canfod anghysonderau rhwng y map a'r datganiad a pharatoi Gorchmynion Addasu i ffurfioli'r map a'r datganiad erbyn 2011. 23. Diweddarwr map a'r datganiad gan roi sylw i'r Gorchmynion Addasu a broseswyd erbyn 2014.	17	170	ALI a FfMLI
Camddefnyddio 24. Cwblhau'r arolwg o'r rhan o'r rhwydwaith nas arolygwyd o'r blaen. I'w gwblhau erbyn diwedd 2009. 25. Datrys gwrthdaro rhwng gwahanol fathau o ddefnyddwyr trwy ddarparu strwythurau ac arwyddion.	5	50	User
Defnyddwyr 26. Clirio rhwystrau pan roddir gwybod amdanynt.	5	50	User
Gosod arwyddion a mynegbyst 27. Nodi'r lleoliadau erbyn diwedd 2008. 28. Mae yna 343 o gilffyrdd cyfyngedig sy'n terfynu ar briffyrrd wedi'u metlio. Y rhain yn awr fydd sylfaen cynllun i gwblhau gosod arwyddion arnynt. 29. Mewn perthynas â hyn bydd yr Awdurdod yn ystyried cynlluniau i osod mynegbyst ar y rhwydwaith fesul ardal.	11 5	110 50	ALI a **
Defnyddwyr a'r ALI 30. Gwneud arolygon.	5	50	ALI
Parhau i brosesu hawliadau 31. Ymchwilio i hawliadau.	7.5	75	ALI
Asesu anghenion y gwahanol fathau o ddefnyddwyr a datrys gwrthdaro rhwng defnyddwyr a thirfeddianwyr 32. Gwneud arolygon lle be angen.	5	50	ALI
Cysylltiadau â chyfleoedd mynediad eraill 33. Gwella cysylltiadau.	*	*	ALI
Gwella llwybrau trefol sy'n bodoli eisoes 34. Gwella llwybrau trefol.	81	810	LA

* I'w chadarnhau ** Rhwystro

As indicated in the table above, the Authority is ambitious in its proposals. Currently there is an annual budget of £75k, which allows for the maintenance of the existing network, with minor improvements for disability, clearance, misuse and obstructions. Additional claims are being processed together with the defining of the definitive documentation. If real progress is to be made however, it is imperative that additional external funding is secured.

7.16.3

The Authority will actively seek funding and resources to meet the objectives of this plan from sources including:

- National Assembly for Wales.
- Local Authority budget.
- European Commission.
- Public Sector.
- Lottery.
- Voluntary Groups.

7.17 Monitoring/Key performance indicators

7.17.1

The Authority is able to produce records on the progress being made in many fields of the rights of way work area beyond those required by WAG each year. The Authority will continue to report these figures through various reports to Authority committees and Access Forum. The Authority will aim to remain in the top quartile of Welsh Authorities on National Performance Indicators (PI's). Subject to available funding, the Authority will seek to make and identify more accessible rights of way in partnership with stakeholders.

7.17.2

Two of the PIs identified by the Audit Commission in regard to Public Rights of Way are:

1. The percentage of total length of rights of way, which are easy to use by members of the public.
2. The length of promoted rights of way as a percentage of the total length of the public rights of way network.

Fel y nodir yn y tabl uchod, mae'r Awdurdod yn uchelgeisiol o ran ei gynigion. Ar hyn o bryd mae cyllideb flynyddol o £75,000, sy'n caniatáu am gynnal a chadw'r rhwydwaith sy'n bodoli eisoes, gyda mân welliannau ar gyfer pobl anabl, clirio, camddefnyddio a rhwystrau. Mae hawliadau ychwanegol yn cael eu prosesu ynghyd â diffinio'r dogfennau diffiniol. Er mwyn gwneud cynnydd gwirionedd, fodd bynnag, mae'n hanfodol sicrhau rhagor o arian allanol.

7.16.3

Bydd yr Awdurdod yn mynd ati i chwilio am arian ac adnoddau i gyrraedd amcanion y cynllun hwn o ffynonellau a fydd yn cynnwys:

- Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- Cyllideb yr Awdurdod Lleol.
- Y Comisiwn Ewropeaidd.
- Y Sector Cyhoeddus.
- Y Loteri.
- Grwpiau Gwirfoddol.

7.17

Monitro/dangosyddion perfformiad allweddol


7.17.1

Mae'r Awdurdod yn gallu cynhyrchu cofnodion ar y cynnydd sy'n cael ei wneud mewn llawer o rannau o faes gwaith hawliau tramwy, ar ben y rhai sy'n ofynnol gan LCC bob blwyddyn. Bydd yr Awdurdod yn parhau i roi'r ffigurau hyn trwy wahanol adroddiadau i bwylgorau'r Awdurdod a'r Fforwm Mynediad. Bydd yr Awdurdod yn anelu at aros yn chwartel uchaf Awdurdodau Cymru o ran y Dangosyddion Perfformiad (DP) Cenedlaethol. Gan ddibynnu ar yr arian sydd ar gael, bydd yr Awdurdod yn ceisio gwneud a nodi mwy o hawliau tramwy hygrych mewn partneriaeth â rhanddeiliaid.

7.17.2

Dau o'r DP a nodir gan y Comisiwn Archwilio mewn perthynas â Hawliau Tramwy Cyhoeddus yw:

1. Canran o gyfanswm hyd yr hawliau tramwy, sy'n hawdd i aelodau o'r cyhoedd eu defnyddio.
2. Hyd yr hawliau tramwy sy'n cael eu hyrwyddo fel canran o gyfanswm hyd y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus.



7.17.3

The Authority will continue to survey the network as described previously and report to the Rights of Way Cabinet Committee and Local Access Forum on an annual basis.

7.17.4

It is understood that the promotion PI is under redevelopment by the Local Government Data Unit. If the current indicators evolve, then CCBC will contribute to the performance improvement programme through the PI system.





7.17.3

Bydd yr Awdurdod yn parhau i
arolygu'r rhwydwaith fel y nodwyd
ynghynt a rhoi adroddiadau i Bwyllgor
Hawliau Tramwy'r Cabinet a'r Fforwm
Mynediad Lleol bob blwyddyn.

7.17.4

Deellir bod y DP hyrwyddo'n cael ei
aillddatblygu gan yr Uned Ddata Llywodraeth
Leol. Os bydd y dangosyddion presennol yn
datblygu, yna bydd CBSC yn cyfrannu at y
rhaglen gwella perfformiad trwy'r system DP.